

Celf a Phensaerniaeth



Ffocws y Pwnc

Tynnu lluniau wrth arsylwi, casglu syniadau o fyd natur ar gyfer *collage*, elfennau cerflunio, celf haniaethol a defnyddio cyfryngau digidol.

Crynodeb

Mae gweithgareddau'r pwnc hwn yn datgelu i'r plant pa mor ysbrydoledig mae safleoedd claddu'n gallu bod ar gyfer prosiectau celf creadigol. Mae safleoedd claddu'n darparu ffynhonnell gyfoethog o syniadau ac ysgogiad ac yn fannau cychwyn rhagorol ar gyfer ystod o weithgareddau a phrosiectau celf sy'n rhoi mwy o ystyr i waith ymarferol y plant. Mae'r gweithgareddau'n astudio patrymau ym myd natur a siapiau cerfluniol a geometrig mewn adeiladau, strwythurau a chofgolofnau.

Mae'r gweithgareddau'n cefnogi astudiaeth yn yr ystafell ddosbarth o arlunwyr sy'n defnyddio natur fel ysbrydoliaeth, er enghraifft Andy Goldsworthy, William Morris a Henri Matisse. Maent hefyd yn cefnogi astudiaethau o arlunwyr haniaethol fel Picasso a Kandinsky, yn ogystal ag arlunwyr pensaernïol fel Antoni Gaudi.

Dyma'r gweithgareddau: Cerfio Cywrain, Arwyddion a Symbolau, Gwyllt Am Gelf, Pensaerniaeth Haniaethol.

Cysylltiadau Cwricwlwm

Mae'r pwnc hwn yn helpu i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth y disgyblion mewn Celf a Dylunio a Dylunio a Thechnoleg.

CSBC

Celf a dylunio mynegiannol

Archwilio gan ddefnyddio cyfryngau a deunyddiau

Bod yn Ddychmygus

CSBC, CA1 a CA2

Sgiliau Allweddol

Ymchwilio

Cymharu

Gwrthgyferbynnu

Arsylwi

Casglu

Mynegi

Dylunio

Adlewyrchu

Cofnodi

Geiriau Allweddol

Digidol

Pensaerniaeth

Haniaethol

Gwead

Siâp



Dyfarniad John Muir

Darganfod

Archwilio

Gwarchod

Rhannu



Rhowch gynnig ar y gweithgareddau canlynol os ydych yn gweithio tuag at unrhyw un o'r bathodynau canlynol:

Enfys – Edrych a Dysgu

Beavers - Gweithgaredd Archwilio

Brownies - Arlunydd, Allan yn yr Awyr Agored

Cybiau - Gweithgaredd Arlunydd

Sgowtiaid - Gweithgaredd Arlunydd, Gweithgaredd Brwd am Gelf, Gweithgaredd Ffotograffydd, Gweithgaredd Crefft

Arwyddion a Symbolau

Mae arwyddion a symbolau i'w gweld ym mhob man mewn safleoedd claddu, yn enwedig ar waith carreg. Mae'r awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau'n cynnig cyfle i'r plant eu harchwilio a gwerthfawrogi bod symbolau'n gallu dweud llawer heb eiriau. Mae'r addurniadau, gan gynnwys arddulliau llythrennau'r arysgrifau a geir ar adeiladau, cerrig beddau, cofadeiladau a chofgolofnau, yn cael eu hastudio hefyd.

Canlyniadau Dysgu

Bydd y plant yn gwneud y canlynol:

- Defnyddio llyfrau braslunio i gofnodi arsylwadau a phrofiadau
- Archwilio syniadau ar gyfer dylunio
- Adolygu, ailymweld a mireinio'r arsylwadau uniongyrchol

Cwestiynau Allweddol

Beth maent yn ei olygu?

Adnoddau

Deunyddiau tynnu llun - e.e. pensiliau, pensiliau lliw, creonau, pinnau ffelt duon main, pasteli, papur a llyfrau braslunio, camera.

Helpa Garthwr Arwyddion a Symbolau

Brasluniwch Eich Symbolau Eich Hun

Syniadau ar gyfer Gweithgareddau

1. Braslunio a Chwilio – Ydych chi'n gallu gweld symbolau ac arwyddion yr **helpa garthwr arwyddion a symbolau?** Ticiwch nhw wrth i chi ddod o hyd iddyn nhw. Bob tro rydych yn dod o hyd i symbol newydd, dyfalwch beth yw ei ystyr yn eich barn chi.

Pwynt trafod - Beth mae'r symbol yn ei ddweud wrthyh chi am y person sydd wedi'i gladdu yno? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

Os dewch o hyd i arwydd anarferol nad yw ar y rhestr, gwnewch gofnod ohono drwy ei fraslunio gyda chryn dipyn o fanylder. Dyfalwch! Beth mae'n ei olygu yn eich barn chi? Pam?

2. Casglu symbolau – Cerddwch o amgylch y safle claddu a chasglwch symbolau sydd o ddiddordeb i chi neu sy'n golygu rhywbeth i chi gan ddefnyddio eich taflen **braslunio eich symbolau eich hun**. Teimlwch nhw gyda'ch dwylo. Meddyliwch am y llinellau a'r amlinellau. Edrychwch ar y math o ffont, a'r arddull hefyd. Casglwch eich ffefrynnau drwy eu braslunio neu wneud rhwbiadau gofalus efallai.

Yn Ôl yn yr Ysgol

- Gan ddefnyddio'r symbolau a welwyd yn y safle claddu fel ysbrydoliaeth, crëwch eich symbol personol eich hun. Dylai gynrychioli eich nodweddion, eich personoliaeth a'ch gwerthoedd. Gallai gynnwys eich hobiau, eich hoff bethau a digwyddiadau pwysig. Brasluniwch eich syniadau, eu mireinio ac wedyn creu eich symbol mewn cyfrwng o'ch dewis chi. Edrychwch ar symbolau eich gilydd. Ydych chi'n gallu dyfalu pwy maent yn ei gynrychioli?
- Cerfiwch eich symbol allan o sebon.
- Ymchwiliwch i ystyr y symbolau y cawsoch hyd iddyn nhw ac nad oeddent ar y rhestr.
- Ymchwiliwch i'r arwyddion a'r symbolau a'u cyswllt â gwahanol grefyddau.

CSBC


Sawl croes ydych chi wedi dod o hyd iddynt? Chwiliwch am 3 symbol gwahanol. Chwaraewch 'Snap Symbolau'. Archwiliwch y safle claddu a chyfateb yr un symbolau.




Arwyddion a Symbolau Helfa Garthwr



Seren Dafydd




Oen




Llong




Cilgant a seren



Colomen



Llyfr neu sgrôl



Croes




Dwylo




Wrn



Eiddew



Celfi at waith



Torch




Blodau



Angel



ISH



Dail neu goeden
dderwen

Arwyddion a Symbolau Helfa Garthwr

Cilgant a seren

Dyma symbol Islam ac felly hefyd enw duw neu'r enw mwyaf.

Llong

Gallai llong neu gwch ddynodi bedd morwr, mae hefyd yn symbol o fynd ar siwrnai.

Oen

Iesu fel oen Duw, hefyd yn symbol o dynerwch a diniweidrwydd.

Seren Dafydd neu Seren 6 Phwynt

Dyma symbol o Iddewiaeth neu symbol Masonaidd.

Dwylo

Mae dwylo wedi'u plethu'n arwydd o uniad clos fel priodas. Credir fod dwylo sy'n pwyntio ar i lawr yn golygu marwolaeth sydyn, ac ystyr pwyntio ar i fyny yw'r nefoedd.

Croes

Efallai y gwelwch chi wahanol fathau o groesau ond maen nhw i gyd yn arwydd o ffydd Gristnogol gref.

Llyfr neu sgrôl

Gallai hyn fod yn symbol o ffydd neu ysgolhaig. Efallai mai Beibl yw'r llyfr, yn symbol o berson crefyddol neu weddi. Mae sgrôl yn symbol o fywyd ac amser.

Colomen

Dyma symbol o'r Ysbryd Glân ac o ryddhau'r enaid wedi marwolaeth.

Torch

Dyma symbol o fuddugoliaeth dros farwolaeth.

Celfi at Waith

Efallai y gwelwch chi symbol sy'n dangos swydd neu ddiddordeb. Gallai einion neu forthwyl fod yn symbol o of. Gallai ffidil fod yn symbol o gerddor a lamp glöwr yn symbol o löwr.

Eiddew

Mae gan Eiddew lawer o ystyron, gan gynnwys y cof, anfarwoldeb, cyfeillgarwch, ffyddlondeb, cariad diderfyn a bywyd bythol.

Wrn

Dyma symbol Groegaidd o alar, sy'n arwydd o dristwch. Defnyddiwyd wrn yn wreiddiol i ddal lludw'r meirw yn yr hen oes.

Dail neu goeden dderwen

Mae gan y goeden dderwen lawer o ystyron, gan gynnwys croeso, sefydlogrwydd, cryfder, anrhydedd, tragwyddoldeb, dyfalbarhad a rhyddid. Credir mai'r goeden hon oedd y pren a ddefnyddiwyd i greu croes Iesu Grist.

ISH

Dyma'r Lladin ar gyfer *Iesus Hominum Salvator*, sef Iesu Gwaredwr Dynolryw. IHS yw 3 llythyren gyntaf y gair Groegaidd am Iesu hefyd.

Angel

Mae Angylion yn gyfryngwyr i Dduw, ac yn pwyntio at y nefoedd yn aml. Gallent fod yn symbol o warcheidwaid y meirw ac ysbrydolrwydd.

Blodau

Maent i'w gweld ar feddau yn aml ac yn golygu llawer o wahanol bethau, gan gynnwys cariad, harddwch a gobaith. Mae'r lili yn symbol Groegaidd hynafol o fod yn fam.

Tynnwch Lun Eich Symbolau Eich Hun
